**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**30 Hydref 2025**

Ym mis Medi 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion.  Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad, yr ymdrinnir ag ef yn yr ymateb hwn.

Cyflwynwyd y Bil Lles Plant ac Ysgolion ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Rhagfyr 2024. Yn y cyfnod adrodd, yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mawrth 2025, cyflwynwyd gwelliannau i'r Bil i gynnwys Cymru mewn rhai darpariaethau. Yn unol â Rheol Sefydlog 29, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r gwelliannau ar 24 Mawrth. Roedd y Memorandwm yn cyfeirio at y darpariaethau sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol a gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd yn gofyn am ganiatâd y Senedd i wneud y rhain yn gymwys i Gymru.

Gosodwyd dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar 28 Mai a 12 Mehefin, i gynnwys gwelliannau pellach a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, i gynnwys Cymru mewn darpariaethau sy'n ymwneud â chyflogaeth plant, ac i gynnwys agweddau ar y darpariaethau ynghylch plant nad ydynt yn yr ysgol, a hepgorwyd o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad ar y tri Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil ar 19 Medi.

## Ymatebion i'r argymhellion

Argymhelliad 1.

Dylai’r Senedd roi cydsyniad ar gyfer cymalau 11, 20, 25-30 ac Atodlen 1 (fel y nodir yn y Memorandwm); cymal 26 (fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2); a chymalau 35, 63 a 66 (fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3) o’r Bil Lles Plant ac Ysgolion.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Dim angen ymateb.